# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

**RHAN 3**

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

**PENNOD 1**

YSMYGU

*Cerbydau di-fwg*

**15 Cerbydau di-fwg**

(1) Mae cerbyd yng Nghymru yn ddi-fwg at ddibenion y Bennod hon os yw rheoliadau o dan yr adran hon yn darparu iddo gael ei drin fel cerbyd di-fwg.

(2) Dim ond os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod gwneud hynny yn debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru y caiff y rheoliadau ddarparu i gerbyd gael ei drin fel cerbyd di-fwg.

(3) Caiff y rheoliadau, ymhlith pethau eraill, wneud darpariaeth—

(a) ar gyfer y disgrifiadau o gerbydau sydd i gael eu trin fel pe baent yn ddi-fwg;

(b) ar gyfer yr amgylchiadau y mae cerbydau i gael eu trin fel pe baent yn ddi-fwg odanynt (gan gynnwys drwy gyfeirio at oedran unrhyw berson yn y cerbyd);

(c) i gerbydau gael eu trin fel pe baent yn ddi-fwg mewn ardaloedd penodedig yn unig, neu ac eithrio mewn ardaloedd penodedig;

(d) ar gyfer esemptiadau.

(4) Ni chaniateir i'r pŵer i wneud rheoliadau o dan yr adran hon gael ei arfer er mwyn darparu i long neu hofrenfad o fewn is-adran (5) gael ei drin fel cerbyd di-fwg.

(5) Mae llong neu hofrenfad o fewn yr is-adran hon os gellid gwneud rheoliadau mewn perthynas ag ef o dan adran 85 o Ddeddf Llongau Masnach 1995 (p.21) gan gynnwys

yr adran honno fel y'i cymhwysir gan unrhyw Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 1(1)(h) o Ddeddf Hofrenfadau 1968 (p.59).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 15 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**I2** A. 15 mewn grym ar 29.9.2020 gan O.S. 2020/1048, **ergl. 2(2)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 15 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 03 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2